Joint Council for Qualifications

**Cynhyrchwyd ar ran: AQA, CCEA, OCR, Pearson a CBAC**

**Hysbysiad i Ganolfannau**

# Cynllun arholiadau wrth gefn/polisi arholiadau

**(At sylw penaethiaid canolfannau, uwch arweinwyr a swyddogion arholiadau)**

**Rhaid** i bob canolfan fod â chynllun arholiadau wrth gefn/polisi arholiadau ar ffeil i'w harchwilio.

Dylai cynllun arholiadau wrth gefn/polisi arholiadau ymdrin â phob agwedd ar weinyddu arholiadau. Bydd yn caniatáu i uwch arweinwyr fod â chynllun wrth gefn cadarn yn ei le a fydd wedyn yn lleihau'r risg i drefn weinyddu'r arholiadau ac unrhyw effaith anffafriol ar fyfyrwyr, pe bai pennaeth y ganolfan, uwch arweinydd/arweinwyr perthnasol, y swyddog arholiadau neu aelod arall o staff sy'n allweddol i'r broses arholiadau yn absennol yn ystod adeg hanfodol o'r gylchred arholiadau.

Dylai canolfannau hefyd ystyried effaith bosibl digwyddiadau eraill fel llifogydd neu ymosodiad seiber.

Er mwyn lleihau biwrocratiaeth a baich ar ysgolion a cholegau, ni fydd fformat neu dempled penodol yn cael ei bennu. Credwn mai uwch arweinwyr mewn ysgolion a cholegau sydd yn y sefyllfa orau i benderfynu ar eu cynllun arholiadau wrth gefn/polisi arholiadau eu hunain.

Mae cynllun wrth gefn ar y cyd i'r system arholiadau yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon, sydd ar gael i'w lwytho i lawr o wefan Ofqual neu'n Gymraeg o wefan Cymwysterau Cymru, yn fan cychwyn da:
https://www.cymwysteraucymru.org/cymraeg/gwybodaeth-i-randdeiliaid/i-ysgolion-a-cholegau/canllawiau-amharu-ar-arholiadau/
Bydd yn darparu fframwaith ar gyfer uwch arweinwyr i greu a siapio cynllun/polisi yng ngoleuni eu hamgylchiadau lleol.

©CGC 2021 – Yn weithredol o 1 Medi 2021